# Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR GYMUNEDAU DIWYDIANNOL

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD IAU 25 CHWEFROR 2021 DRWY GYFRWNG MICROSOFT TEAMS

### 1. YMUNO Â'R CYFARFOD

Vikki Howells AS, Cadeirydd; Robin Lewis, Swyddfa Vikki Howells AS; Y Cynghorydd D White, CBS Pen-y-bont ar Ogwr; Peter Slater, Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru; Steve Fothergill, Prifysgol Sheffield Hallam; Joan Dixon, Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru; Y Cynghorydd Dai Davies, CBS Blaenau Gwent; Y Cynghorydd Gareth Jones CBS Rhondda Cynon Taf; Y Cynghorydd Robert Wood, CBS Castell-nedd Port Talbot; Y Cynghorydd Graham Thomas, CBS Rhondda Cynon Taf; Alun Davies AS; Julie Davies CBS Castell-nedd Port Talbot CBS; Alun Taylor Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo; Paul Hudson CBS Caerffili; Callum Mcsorley, Swyddfa Huw Irranca Davies AS; Alexander Still, Swyddfa Hefin David AS; Stephanie Lynch, Swyddfa David Rees AS; Abigail Chatterjee, Swyddfa Helen Mary Jones AS; Gareth Richards, Swyddfa Dawn Bowden AS; Y Cynghorydd Jayne Brencher, CBS Rhondda Cynon Taf.

### 2. Ymddiheuriadau

David Rees AS; Dai Lloyd AS; Dawn Bowden AS; ac Angela Burns AS.

### 3. Croeso

Croesawodd Vikki Howells AS bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd yr Athro Steve Fothergill o Brifysgol Sheffield Hallam, sef cydawdur yr adroddiad a gomisiynwyd gan Gynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo ar effaith argyfwng y coronafeirws ar y Brydain ddiwydiannol hŷn.

### 4. Yr Athro Steve Fothergill, Prifysgol Sheffield Hallam

Dechreuodd yr Athro Fothergill ei gyflwyniad drwy amlinellu sut, fel rhan o'i waith ymchwil, y bu'n archwilio effaith argyfwng y coronafeirws ar iechyd, economi a marchnadoedd llafur y Brydain ddiwydiannol hŷn, gan ddod ag amrediad eang o ystadegau swyddogol ynghyd er mwyn cau'r bylchau yn y dystiolaeth.

Gan ddechrau gyda'r sefyllfa cyn y pandemig, pwysleisiodd y ffaith bod rhan helaeth o'r Brydain ddiwydiannol hŷn eisoes ar ei hôl hi o ran y dangosyddion allweddol a ganlyn: roedd y boblogaeth yn hŷn, yn llai iach ac yn wynebu risg uwch mewn perthynas â'r feirws; roedd niferoedd uwch yn cael budd-daliadau anabledd; roedd yr allbwn

(GVA) fesul swydd yn is; roedd twf swyddi wedi bod yn arafach rhwng 2012 a 2019; roedd dwysedd swyddi yn is yn gyffredinol.

Gan symud ymlaen at effaith y pandemig ar iechyd y cyhoedd, eglurodd y ffaith bod cyfradd yr heintiau a gadarnhawyd yn y Brydain ddiwydiannol hŷn rhwng 10 y cant a 20 y cant yn uwch na chyfartaledd y DU. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y Cymoedd. Er enghraifft, roedd gan Ferthyr Tudful gyfradd o 10,570 o heintiau fesul 100,000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â chyfradd y DU, sef 6,200. Mae’n bosibl bod prinder cyfleoedd i weithio gartref yn un o’r ffactorau esboniadol mewn perthynas â hyn, o gofio mai dim ond 38 y cant o'r gweithlu mewn ardaloedd glofaol oedd yn gallu gwneud hynny, o'i gymharu â 48 y cant yn Llundain. Roedd patrwm tebyg i’w weld yn y gyfradd marwolaethau gronnol fesul 100,000 o'r boblogaeth. Roedd gan ardal fel Rhondda Cynon Taf gyfradd o 326, o'i gymharu â chyfradd gyfartalog y DU, sef 113. Roedd y rhesymau dros y gwahaniaethau a welwyd mewn cyfraddau marwolaeth yn aneglur. Fodd bynnag, yr esboniad mwyaf tebygol oedd y gyfran uwch o bobl sy’n agored i niwed ym mhoblogaethau ardaloedd diwydiannol hŷn, gan gynnwys cyfrannau uwch o bobl hŷn a phobl â phroblemau iechyd tymor hir.

O ran effaith y pandemig ar yr economi a marchnadoedd llafur, clywodd y cyfarfod fod tua thraean o’r swyddi yn y meysydd glo yn gymwys ar gyfer y cynllun ffyrlo – tua’r un faint â'r gyfran yn y DU gyfan. Fodd bynnag, os bydd traean o'r rhai sydd ar ffyrlo yn colli eu swyddi yn y pen draw, gallai hyn arwain at 230,000 o ddiswyddiadau ychwanegol mewn ardaloedd diwydiannol hŷn, a bydd 80,000 ohonynt mewn hen feysydd glo.

Roedd yr ymchwil yn dangos hefyd fod cyfradd y bobl sy’n hawlio budd-daliadau diweithdra ymhlith pobl ifanc 16-24 oed wedi dyblu mewn ardaloedd diwydiannol hŷn. Roedd y gyfradd hon ym Mlaenau Gwent yn 10 y cant, er enghraifft, o’i gymharu â chyfartaledd y DU, sef 7.3 y cant. Yn gyffredinol, roedd cyfradd y bobl ddi-waith sy’n hawlio budd-daliadau a chyfradd y bobl mewn gwaith sy’n yn eu hawlio hefyd wedi cynyddu'n sylweddol mewn ardaloedd diwydiannol hŷn.

Daeth yr Athro Fothergill â’i gyflwyniad i ben gan nodi’r pwyntiau a ganlyn: wrth fynd i mewn i’r pandemig, roedd y Brydain ddiwydiannol hŷn ar ei hôl hi o’i gymharu â gweddill y wlad; roedd yr argyfwng iechyd cyhoeddus yn y Brydain ddiwydiannol hŷn yn waeth; bu difrod sylweddol i economi’r Brydain ddiwydiannol hŷn, a fydd yn parhau i lusgo y tu ôl i'r rhan fwyaf o'r wlad pan fydd yr argyfwng yn cilio. Aeth yr Athro Fothergill ymlaen i nodi bod y dystiolaeth yn dangos bod problemau’r Brydain ddiwydiannol hŷn wedi gwaethygu yn sgil y pandemig, a bod angen dybryd i'r Llywodraeth gadw at yr agenda codi’r gwastad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Fothergill am ei gyflwyniad, a chafwyd trafodaeth ynghylch canfyddiadau'r adroddiad. Dywedodd y

Cynghorydd Graham Thomas, CBS RCT, mai'r pandemig oedd y digwyddiad diweddaraf mewn cyfres o ddigwyddiadau sydd wedi effeithio ar ardaloedd diwydiannol hŷn, gan gynnwys yr argyfwng ariannol, y cyfnod o gyni ariannol, Brexit, a newid hinsawdd. Cyfeiriodd hefyd at effaith technoleg ar natur gwaith, a rôl mesurau fel cyflwyno incwm sylfaenol cyffredinol.

Croesawodd y Cynghorydd Jayne Brencher yr adroddiad, a phwysleisiodd yr angen i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a Fformiwla Barnett fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau economaidd a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr ymchwil. Gofynnodd y Cynghorydd David White beth fyddai effaith hirdymor y feirws ar gyflogaeth. Mewn cyd-destun ehangach, cyfeiriodd Alun Davies AS at gymhlethdod y broses o adfywio'r Cymoedd, rôl y sector cyhoeddus a phwysigrwydd cysylltedd a rhoi'r metro ar waith. Cafwyd cyfeiriad hefyd at yr adroddiad a gomisiynodd gan Sefydliad Bevan ynghylch coridor yr A465, sef coridor Blaenau'r Cymoedd. Cytunwyd y byddai'r adroddiad hwnnw yn cal ei gylchredeg.

## 5. Pynciau ar gyfer y dyfodol

Awgrymodd Vikki Howells y byddai'n ddefnyddiol cael cyfarfod ar y cyd rhwng y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol a'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol yn San Steffan.

## 6. Sylwadau i gloi

Diolchodd Vikki Howells i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth. Yna, gwnaeth rai sylwadau ynghylch gwerth ac ansawdd uchel y wybodaeth a'r ymchwil a ddarperir gan y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol.

Peter Slater
Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru
8 Mawrth 2021